**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

# Canlyniadau Safon Uwch, TGAU a Bagloriaeth Cymru 2010

Medi 2010

Mae'r papur hwn yn rhoi trosolwg ar ganlyniadau dros dro Safon Uwch a TGAU yng Nghymru yn 2010. Caiff y canlyniadau eu cymharu â chanlyniadau 2009 a chanlyniadau Lloegr.

Mae'r papur hefyd yn rhoi crynodeb o ganlyniadau dros dro Bagloriaeth Cymru a gyhoeddwyd yn ystod haf 2010 ac yn eu cymharu â chanlyniadau 2009.

Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

**Mae Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau'n darparu cymorth ymchwil cyfrinachol a diduedd i bwyllgorau craffu a phwyllgorau deddfwriaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac i'r 60 o Aelodau'r Cynulliad a'u staff.**

Mae briffiau gan Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau yn cael eu hysgrifennu ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Mae'r awduron ar gael i drafod y papurau gydag Aelodau a'u staff ond nid yw'n bosibl rhoi cyngor i'r cyhoedd. Croesawn sylwadau ar ein briffiau; os oes gennych unrhyw sylwadau gallwch eu hanfon i'r cyfeiriad post neu e-bost isod.

Gellir cael gafael ar fersiwn electronig o'r papur ar safle'r Cynulliad Cenedlaethol yn: www.cynulliadcymru.org/bus-assembly-publications-research.htm

Mae copïau printiedig hefyd ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau:

Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

E-bost: MembersLibrary@wales.gov.uk

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2010
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Rhif ymholiad: 10 / 1689

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

# Canlyniadau Safon Uwch, TGAU a Bagloriaeth Cymru

Siân Hughes

Rhif dogfen: 10/064

Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau

# Cynnwys


1. **Safon Uwch** ..... 1
2. **TGAU** ..... 3
3. **Bagloriaeth Cymru** ..... 4
   - 3.1. Diplomâu Canolradd a Sylfaen ..... 5
   - 3.2. Sylfaen ..... 5
   - 3.3. Canolradd ..... 6
   - 3.4. Diploma Uwch ..... 6
4. **Ffynonellau gwybodaeth** ..... 7

# Canlyniadau Safon Uwch, TGAU a Bagloriaeth Cymru 2010

## 1. Safon Uwch

Cyhoeddwyd canlyniadau dros dro[1] Safon Uwch 2010 yng Nghymru a Lloegr ar 19 Awst 2010. Mae'r canlyniadau'n cyfeirio at y **cofrestriadau** yn hytrach nag at ymgeiswyr. Dyma'r tro cyntaf i fyfyrwyr fedru ennill gradd A* yn eu harholiadau Safon Uwch. I ennill A* mewn unrhyw bwnc, rhaid i ymgeiswyr gael gradd A yn y pwnc yn gyffredinol **a** chael o leiaf 90 y cant o'r marciau unffurf sydd ar gael yn unedau A2.

- Mae'r gyfradd basio'n gyffredinol wedi gostwng ychydig yng Nghymru o'i chymharu â 2009, ond mae wedi gwella ychydig yn Lloegr. Bu gostyngiad hefyd yn y nifer a gafodd radd A*-C yng Nghymru. Bu ychydig o gynnydd yn y nifer a gafodd A*-C yn Lloegr.
- Roedd canlyniadau ar bob lefel yn well yn Lloegr nag yng Nghymru.
- Mae merched yn parhau i berfformio'n well na bechgyn yng Nghymru a Lloegr. Yr unig eithriad yw bod canran y bechgyn a gafodd A* yng Nghymru ychydig yn uwch na chanran y merched. Mae'r bwlch rhwng perfformiad bechgyn a merched yng Nghymru a Lloegr wedi lleihau, ar wahân i'r gyfradd basio'n gyffredinol yn Lloegr, sydd wedi aros yr un fath.
- Mae nifer y cofrestriadau wedi cynyddu yn Lloegr ac wedi lleihau yng Nghymru.

Mae tabl 1 yn dangos canlyniadau dros dro myfyrwyr Cymru a Lloegr yn yr arholiadau Safon Uwch yn 2010, a dangosir y data cymharol ar gyfer 2009 yn nhabl 2.

[1] Dros dro yn yr ystyr bod y data'n dangos y sefyllfa pan gyhoeddwyd y canlyniadau. Bydd angen gwirio'r data cyn cyhoeddi'r data terfynol.

**Tabl 1: Canran y disgyblion a enillodd gymhwyster Safon Uwch, yn ôl graddau, 2010 (dros dro)**

| | Nifer y cofrestriadau | A* | A*-A | A*-C | A*-E |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cymru** | | | | | |
| Merched | 16,635 | 6.5 | 24.5 | 75.7 | 97.5 |
| Bechgyn | 20,680 | 6.6 | 24.3 | 71.5 | 96.5 |
| Y cyfan | 37,315 | 6.5 | 24.4 | 73.8 | 97.1 |
| **Lloegr** | | | | | |
| Merched | 421,901 | 8.3 | 27.6 | 77.4 | 98.1 |
| Bechgyn | 362,976 | 8.0 | 25.9 | 72.4 | 97.0 |
| Y cyfan | 784,877 | 8.1 | 26.8 | 75.1 | 97.6 |

Ffynhonnell: Y Cyd-gyngor Cymwysterau

**Tabl 2: Canran y disgyblion a enillodd gymhwyster Safon Uwch, yn ôl graddau, 2009**

| | Nifer y cofrestriadau | A | A-C | A-E |
|---|---|---|---|---|
| **Cymru** | | | | |
| Merched | 21,225 | 25.3 | 78.6 | 98.2 |
| Bechgyn | 17,208 | 24.5 | 74.0 | 96.9 |
| Y cyfan | 38,433 | 25.0 | 76.5 | 97.6 |
| **Lloegr** | | | | |
| Merched | 418,161 | 27.4 | 77.0 | 98.0 |
| Bechgyn | 359,009 | 25.4 | 71.8 | 96.9 |
| Y cyfan | 777,170 | 26.5 | 74.6 | 97.5 |

Ffynhonnell: Y Cyd-gyngor Cymwysterau

## 2. TGAU

Cyhoeddwyd canlyniadau dros dro TGAU 2010 ar 24 Awst 2010.

- Roedd y canlyniadau ym mhob gradd wedi gwella yng Nghymru a Lloegr rhwng 2009 a 2010.
- Roedd canlyniadau disgyblion yn Lloegr yn well na chanlyniadau disgyblion yng Nghymru yn y rhan fwyaf o'r graddau er bod canlyniadau A*-G bechgyn ychydig yn well yng Nghymru. Hefyd o edrych ar y graddau A*-G, roedd perfformiad bechgyn a merched, at ei gilydd, yr un fath yng Nghymru a Lloegr.
- Mae merched yn parhau i ennill mwy o'r graddau uchaf na bechgyn, ond nid oes cymaint o wahaniaeth yn y gyfradd llwyddiant yn gyffredinol.

Mae Tabl 3 isod yn dangos canlyniadau cyrsiau TGAU llawn yng Nghymru a Lloegr yn 2010 ac mae Tabl 4 yn dangos data 2009 at ddibenion cymharu.

**Tabl 3: Canran y disgyblion a enillodd TGAU yn ôl graddau, 2010 (dros dro)**

| | Nifer y cofrestriadau | A*-A | A*-C | A*-G |
|---|---|---|---|---|
| **Cymru** | | | | |
| Merched | 151,695 | 22.0 | 70.1 | 98.9 |
| Bechgyn | 144,239 | 16.2 | 62.6 | 98.6 |
| Y cyfan | 295,934 | 19.2 | 66.4 | 98.7 |
| **Lloegr** | | | | |
| Merched | 2,476,843 | 25.5 | 72.5 | 99.0 |
| Bechgyn | 2,417,814 | 19.6 | 65.3 | 98.5 |
| Y cyfan | 4,894,657 | 22.6 | 69.0 | 98.7 |

Ffynhonnell: Y Cyd-gyngor Cymwysterau

**Tabl 4: Canran y disgyblion a enillodd TGAU yn ôl graddau, 2009**

| | Nifer y cofrestriadau | A*-A | A*-C | A*-G |
|---|---|---|---|---|
| **Cymru** | | | | |
| Merchedd | 153,999 | 21.8 | 69.2 | 98.7 |
| Bechgyn | 147,048 | 16.0 | 61.6 | 98.3 |
| Y cyfan | 301,047 | 18.9 | 65.5 | 98.5 |
| **Lloegr** | | | | |
| Merched | 2,522,233 | 24.3 | 70.3 | 98.9 |
| Bechgyn | 2,461,232 | 18.7 | 63.4 | 98.3 |
| Y cyfan | 4,983,465 | 21.5 | 66.9 | 98.6 |

Ffynhonnell: Y Cyd-gyngor Cymwysterau

## 3. Bagloriaeth Cymru

Dechreuwyd treialu Diploma Canolradd a Diploma Uwch Bagloriaeth Cymru ymhlith myfyrwyr ôl-16 mewn 18 o ysgolion a cholegau ym mis Medi 2003. Ar ôl gwerthuso'r cyrsiau, cafodd y cymhwyster ei gyflwyno'n llawn i 76 o ganolfannau ar hyd a lled Cymru o fis Medi 2007 ymlaen.

Cafodd Diploma Sylfaen Bagloriaeth Cymru (14-19 oed) a'r Diploma Canolradd (14-16 oed) eu treialu rhwng mis Medi 2006 a mis Awst 2009.

O fis Medi 2010 ymlaen, bydd 212 o ysgolion, colegau a darparwyr hyfforddiant yn cyflwyno Cymhwyster Bagloriaeth Cymru ar y lefel Sylfaenol, Canolradd ac Uwch, i oddeutu 30,000 o fyfyrwyr, fel rhan o'r broses o gyflwyno'r cymhwyster llawn.

Mae dwy ran i gymhwyster Bagloriaeth Cymru; rhan 'Ddewisol' a'r 'Rhaglen Graidd' ac mae'r cymhwyster ar gael ar dair lefel. Rhaid i bob myfyriwr sy'n astudio'r Fagloriaeth gwblhau'r rhan 'Ddewisol', ac mae'n cynnwys dewisiadau o blith cyrsiau/rhaglenni cymeradwy sydd wedi'u sefydlu (er enghraifft, cyrsiau TGAU, TGAU Galwedigaethol, Uwch Gyfrannol a Safon Uwch, Safon Uwch Galwedigaethol).

Mae 'Rhaglen Graidd' y Fagloriaeth yn cynnwys rhaglen o astudiaethau datblygiad personol, ac mae'n rhaid i'r myfyrwyr eu cwblhau law yn llaw â'r Dewisiadau. Mae elfennau'r 'Rhaglen Graidd' wedi'u gosod allan isod, a chaiff y rhaglen ei hasesu ar y dystiolaeth y bydd y myfyrwyr yn ei chasglu yn ystod eu gweithgareddau, ac ar hynny'n unig.

- Sgiliau Allweddol - bydd myfyrwyr yn datblygu Sgiliau Allweddol trosglwyddadwy drwy'r pedair elfen arall a amlinellir isod, yn ogystal â thrwy eu dewisiadau.
- Cymru, Ewrop a'r Byd - cyfle i ddysgu rhagor am Gymru a'i pherthynas ag Ewrop a'r Byd. Mae modiwl iaith ar lefel sy'n addas ar gyfer y myfyriwr yn cael ei gynnwys yn hyn.
- Addysg Cysylltiedig â Gwaith – yn cynnwys gweithio gyda chyflogwr a chymryd rhan mewn menter fel rhan o dîm i helpu'r myfyriwr i ddeall sut y mae busnesau'n gweithio.
- Addysg Bersonol a Chymdeithasol – yn helpu'r myfyriwr i ymchwilio i'r byd sydd ohoni: y teulu, iechyd, eu perthynas ag eraill, dinasyddiaeth a datblygu cynaliadwy. Mae'n cynnwys gweithgaredd yn y gymuned leol.
- Ymchwiliad personol – cyfle i'r myfyriwr gynnal ymchwiliad personol i faes sydd o ddiddordeb iddynt.

## 3.1. *Diplomâu Canolradd a Sylfaen*

Dyfarnodd CBAC Ddiploma Canolradd Bagloriaeth Cymru am y seithfed tro, a'r Diploma Sylfaen am y pedwerydd tro, ar 24 Awst 2010. Gan fod myfyrwyr yn ennill cymhwyster Bagloriaeth Cymru drwy ychwanegu at eu portffolio o hyd, os nad yw ymgeiswyr wedi ennill y Diploma neu'r Dystysgrif Graidd lawn eto, mae'n bosibl iddynt wneud hynny, cyn belled â'u bod yn cwblhau pob rhan o'r cymhwyster yn ystod y flwyddyn academaidd nesaf. Mae tabl 5 yn dangos dyfarniadau'r Diploma Sylfaen yn yr haf ac mae Tabl 6 yn dangos dyfarniadau'r Diploma Canolradd yn yr haf.

Mae'r crynodeb a ganlyn ar gyfer 2009 a 2010 yn seiliedig ar y ffigurau a gyhoeddodd CBAC ar y diwrnod y cyhoeddwyd y canlyniadau.

## 3.2. *Sylfaen*

- Yn 2010, bu cynnydd o 935 ers 2009 yn nifer yr ymgeiswyr a gwblhaodd y rhaglen Sylfaen.
- Yn 2010, llwyddodd 69 y cant o'r ymgeiswyr a gwblhaodd y rhaglen i ennill y Diploma Sylfaen. Mae hyn yn fwy na'r 64 y cant a lwyddodd yn 2009.
- Yn 2010, llwyddodd 83 y cant o'r ymgeiswyr a gwblhaodd y rhaglen i ennill y Dystysgrif Graidd o'i gymharu â 77 y cant yn 2009.

**Tabl 5: Dyfarniadau Diploma Sylfaen Bagloriaeth Cymru, 2009 a 2010**

| | Haf 2009 | Haf 2010 |
|---|---|---|
| Ymgeiswyr a gwblhaodd y rhaglen | 1,414 | 2,349 |
| Ymgeiswyr a enillodd y Diploma Sylfaen | 910 | 1,623 |
| Ymgeiswyr a enillodd y Dystysgrif Graidd | 1,085 | 1,932 |

Ffynhonnell: CBAC

## *3.3. Canolradd*

- Yn 2010, bu cynnydd o 1,382 ers 2009 yn y nifer o gwblhaodd y rhaglen Ganolradd.
- Yn 2010, llwyddodd 63 y cant o'r ymgeiswyr a gwblhaodd y rhaglen i ennill y Diploma Canolradd. Y ffigur cyfatebol ar gyfer 2009 yw 58 y cant.
- Yn 2010, llwyddodd 75 y cant o'r ymgeiswyr a gwblhaodd y rhaglen i ennill y Dystysgrif Graidd. Y ffigur cyfatebol ar gyfer 2009 yw 71 y cant.

**Tabl 6: Dyfarniadau Diploma Canolradd Bagloriaeth Cymru, 2009 a 2010**

| | Haf 2009 | Haf 2010 |
|---|---|---|
| Ymgeiswyr a gwblhaodd y rhaglen | 2,319 | 3,701 |
| Ymgeiswyr a enillodd y Diploma Canolradd | 1,346 | 2,345 |
| Ymgeiswyr a enillodd y Dystysgrif Graidd | 1,640 | 2,757 |

Ffynhonnell: CBAC

## *3.4. Diploma Uwch*

Dyfarnodd CBAC Ddiploma Uwch Bagloriaeth Cymru am y chweched tro ar 19 Awst 2010.

- Bu cynnydd o 2,444 yn nifer yr ymgeiswyr a gwblhaodd y Diploma Uwch.
- Llwyddodd 81 y cant o'r ymgeiswyr a gwblhaodd y rhaglen yn 2010 i ennill y Diploma Uwch, sef cynnydd bach ers 2009.
- Llwyddodd 87 y cant o'r ymgeiswyr a gwblhaodd y cwrs i ennill y Dystysgrif Graidd, sy'n fwy na'r 85 y cant a lwyddodd yn 2009.

**Tabl 7: Dyfarniadau Diploma Uwch Bagloriaeth Cymru, 2009 a 2010**

| | Haf 2009 | Haf 2010 |
|---|---|---|
| Ymgeiswyr a gwblhaodd y rhaglen | 2,936 | 5,380 |
| Diploma | 2,341 | 4,360 |
| Ymgeiswyr a enillodd y Dystysgrif Graidd | 164 | 4,679 |

Ffynhonnell: CBAC

## 4. Ffynonellau gwybodaeth

Data dros dro a nodir ar gyfer 2010 yn ystyr ei fod yn dangos y sefyllfa pan gyhoeddwyd y canlyniadau. Caiff y data ei wirio cyn cyhoeddi'r data terfynol ar lefel genedlaethol (Cymru), ar gyfer awdurdodau lleol ac ar gyfer ysgolion. Fel arfer, caiff data awdurdodau lleol ei gyhoeddi fis Tachwedd bob blwyddyn.

Mae'r Cyd-gyngor Cymwysterau Cyffredinol wedi cyhoeddi data dros dro ar gyfer Dyfarniadau Safon Uwch, Uwch Gyfrannol a'r Dyfarniad Uwch Estynedig yng Nghymru, Lloegr a gogledd Iwerddon, ar wahân ac yn gyffredinol. Mae'n cynnwys gwybodaeth am ganlyniadau yn ôl graddau a rhyw. Gellir gweld y data hwn, ynghyd â'r canlyniadau ar gyfer y blynyddoedd blaenorol yma. Mae'r Cyd-bwyllgor Cymwysterau Cyffredinol yn cyhoeddi data tebyg ar gyfer TGAU, TGAU Cymhwysol a'r Dystysgrif Lefel Mynediad, a gellir eu gweld yma.

Bydd CBAC yn rhyddhau datganiadau i'r cyfryngau ar yr un diwrnod ag y caiff y canlyniadau eu cyhoeddi. Mae'r datganiadau hyn yn cynnwys data ar gyfer arholiadau a ddyfernir gan CBAC a data ar gyfer yr holl gyrff dyfarnu. Gellir gweld y datganiad ar gyfer arholiadau Safon Uwch, Uwch Gyfrannol, y Dyfarniad Uwch Estynedig a chymhwyster Bagloriaeth Cymru yma. Gellir gweld y datganiad mewn perthynas â TGAU, Cymwysterau Lefel Mynediad a Diplomâu Canolradd a Sylfaen Bagloriaeth Cymru yma.

Gellir gweld data 2009 ar gyfer Cymru, fesul awdurdod lleol, yng nghyhoeddiad y Gyfarwyddiaeth Ystadegau Llywodraeth Leol, sef *Ysgolion yng Nghymru: Perfformiad Mewn Arholiadau 2009.* Caiff datganiad tebyg, sy'n cynnwys data ar gyfer 2010, ei gyhoeddi ym mis Mai 2011.